



COLEG MEIRION-DWYFOR
Dolgellau | Pwllheli | Glynllifon

ADRODDIAD A DATGANIADAU CYLLIDOL

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2009



MYNEGAI

	TUDALEN
Arolwg Gweithredol a Chyllidol	1-4
Datganiad o Gyfrifoldebau Aelodau'r Gorfforaeth	5
Datganiad Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol	6-9
Cyfrif Incwm a Gwariant	10
Datganiad Gwargedau a Cholledion Cost Hanesyddol	11
Datganiad Enillion a Cholledion Cydnabyddedig	11
Mantolen ar 31 Gorffennaf	12
Datganiad Llif Arian	13
Nodiadau ar y Datganiadau Cyllidol	14-29
Adroddiad yr Archwilwyr Allanol Annibynnol	30-31



AROLWG GWEITHREDOL A CHYLLIDOL

Mae'r aelodau yn cyflwyno'r adroddiad hwn a'r datganiadau cyllidol wedi eu harchwilio am y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2009.

Statws Cyfreithiol

Mae Coleg Meirion-Dwyfor yn Goleg Addysg Bellach annibynnol wedi ei ffurfio o dan "Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992". Mae corff llywodraethol y coleg yn cael ei lywodraethu yn unol ag Offerynnau ac Erthyglau Rheoli wedi eu seilio ar y Ddeddf uchod ynghyd â Gorchmynion Addasu (rhifau 1 a 2) 1999.

Statws Trethiant ac Elusennol

Mae'r Coleg yn elusen eithriedig o fewn ystyr atodiad 2 y Ddeddf Elusennau 1993 ac o ganlyniad yn elusen o fewn ystyr rhan 506 o'r Ddeddf Treth Incwm a Chorfforaeth (ILTA) 1998. O ganlyniad mae'r Coleg yn rhydd o dreth incwm a threth corfforaeth.

Datganiad Cenhadaeth

Datganiad Cenhadaeth y Coleg yw:

"Darparu ystod eang o addysg a hyfforddiant uchel ei safon er mwyn cwrdd ag anghenion presennol a dyfodol cymuned wledig a dwyieithog, a hyrwyddo datblygiad unigol, cymunedol ac ecnomaidd"

Wrth ddilyn y weledigaeth hon, bydd y Coleg yn :

- * gosod anghenion y myfyrwyr wrth galon pob datblygiad
- * trin yr holl staff yn deg a chyfartal
- * hybu amrywiaeth a chydarddoldeb yn ei holl waith
- * ymdrechu i gael gwelliant parhaus yn ei holl weithgareddau
- * parchu a hybu dwyieithrwydd ym mhob agwedd o'i waith
- * gweithredu mewn modd gyfreithlon a thryloyw, gan sicrhau bod holl staff neu gynrychiolwyr y Coleg yn cynnal eu proffesiynoldeb a'u huniondeb bob amser
- * cynnal proses lywodraethu agored a throloyw, gan gadw at yr holl ddeddfwriaeth a chanllawiau
- * ymateb yn onest i graffu a diddordeb cyhoeddus

Amcanion Strategol

Yng Ngorffennaf 2008 mabwysiadodd y Coleg gynllun strategol am y cyfnod 1af Awst 2008 i 31ain Gorffennaf 2011. Mae'r ddogfen Cynllunio Strategol yn nodi'r blaenoriaethau sefydliadol sy'n dilyn:

- * bod yn rhan hanfodol o'r rhwydweithiau dysgu yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru
- * parhau i ddatblygu ei gwricwlwm yn unol â'r galw a nodir yn lleol a blaenoriaethau cenedlaethol - yn neilltuol y Llwybrau Dysgu 14-19
- * denu 100% o bobl ifanc 16 oed ym Meirionnydd a Dwyfor a'r ardaloedd cyfagos sydd yn bwriadu dilyn rhaglenni astudio pellach a gynigir gan y Coleg
- * dod yn brif ddarparwr darpariaeth dysgu o bell cyfrwng Cymraeg ac felly'n hybu enw da'r Coleg yn genedlaethol a rhyngwladol a chynyddu cofrestrïadau myfyrwyr
- * cynyddu ymwneud y Coleg â chyflogwyr, a thrwy hynny yn datblygu sgiliau gwaith yn yr ardal a chefnogi datblygiad y gweithlu
- * hybu a chynorthwyo datblygiad cymunedol ac economaidd yn ei dalgyrch
- * darparu gwasanaethau addysg hyfforddiant a chefnogaeth o safon ragorol gyson, ymgeisio'n barhaus i wella ansawdd ei ddarpariaeth addysg a hyfforddiant a gwasanaethau cefnogi
- * datblygu ei ddarpariaeth ddwyieithog yn barhaus ac arwain datblygiadau o'r fath yn lleol a chenedlaethol
- * gwella ei reolaeth a llywodraeth yn barhaus
- * gwella ei adnoddau TGCh yn barhaus yn unol â'r datblygiadau diweddaraf
- * bod yn weithgar wrth ddatblygu a hybu cydweithio a phartneriaethau â darparwyr a sefydliadau eraill er mwyn darparu'r lefel ehangaf o ddarpariaeth ac i hybu effeithlonrwydd yn y sector cyhoeddus
- * ymateb yn gadarnhaol i bolisi cenedlaethol sydd ar y gweill am gyflunio darparwyr a chynllunio

Mae manylion sut mae'r Coleg wedi cyflawni yr amcanion strategol yn ystod 2007/08 i'w cael yn Adroddiad Blynyddol y Coleg.



AROLWG GWEITHREDOL A CHYLLIDOL (parhâd)

Yn ystod 2008/09 cytunodd Bwrdd Coleg Meirion-Dwyfor y byddai buddiannau'r Coleg a'r dysgwyr yn yr ardal yn cael eu gwasanaethu orau drwy uno gyda sefydliad mwy. Yn fuan yn 2009, cytunodd Bwrdd Corfforaeth Coleg Llandrillo Cymru ddechrau trafodaethau mwy ffurfiol gyda Choleg Meirion-Dwyfor ac maent wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd byth ers hynny i edrych ar y posibilrwydd o uno'r ddau Goleg yn 2010. Mae'r ddwy Gorfforaeth wedi dechrau cyfnod o gynllunio fel paratoad ar gyfer yr uno arfaethedig.

PERFFORMIAD ARIANNOL

Cyfrif Incwm a Gwariant

Yn ystod 2008/09 cynhyrchodd y Coleg ddiffyg gweithredol ar ôl costau ailstrwythuro eithriadol o £368,297, o'i gymharu â diffyg o £275,434 yn y flwyddyn flaenorol, cynnydd o £92,863. Mae crynodeb o'r cyfrif incwm a gwariant isod.

Crynodeb o'r Cyfrif Incwm a Gwariant am y Flwyddyn

		2008/09 £		2007/08 £
Incwm				
Grant cylchol LICC	6,314,304		6,422,735	
Cyllid Arall LICC	852,270		763,697	
Incwm Arall	<u>2,086,687</u>	9,253,261	<u>2,313,447</u>	9,499,879
Gwariant :				
Costau staffio	6,444,537		6,614,488	
Gwariant gweithredol arall	2,327,035		2,281,305	
Llog Taladwy (FRS17)	58,000		0	
Dibrisiant	<u>773,441</u>	9,603,013	<u>640,462</u>	9,536,255
Diffyg gweithredol cyn costau eithriadol		(349,752)		(36,376)
Costau Ailstrwythuro Eithriadol		<u>18,545</u>		<u>239,058</u>
Diffyg gweithredol yn cynnwys costau eithriadol		<u>(368,297)</u>		<u>(275,434)</u>

Mae'r costau ailstrwythuro eithriadol yn ymwneud â chostau'r broses ailstrwythuro rheolaeth a chefnogaeth a ddaeth i rym yn ystod 2007/08.

Heb y costau ailstrwythuro, y diffyg gweithredol am y flwyddyn oedd £349,752, cynnydd o £313,376 o'i gymharu â'r diffyg o £36,376 yr adroddwyd arno am 2007/08. Roedd y diffyg yn unol â'r rhagolygon ac mae'n adlewyrchu'r toriad yn y grant cylchol ddyrannir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hyn yn dilyn toriad yn y grant cylchol yn y flwyddyn flaenorol ac mae'n digwydd yr un pryd ag y bu raid i'r Coleg, ynghyd â'r Colegau AB eraill yng Nghymru wynebu cyllido'r codiad cyflog gytunwyd arno'n genedlaethol, cyfarfod â'r cynnydd heb ei debyg yng nghostau ynni a chyflenwadau gwasanaethau eraill a'r ymrwymiad i welliant parhaus yn ei holl weithgareddau addysgol.

Lleihaodd cyfanswm yr incwm godwyd yn y flwyddyn £246,618 o £9,499,879 yn 2007/08 i £9,253,261 eleni, lleihad o 2.6%. Lleihad yn bennaf oherwydd y toriad yn y grant cylchol a lleihad yng ngwerth y contractau ar gyfer gwasanaethau Sgiliaith.

Cynnyddodd cyfanswm y gwariant, heb y costau eithriadol, £66,758 (0.7%) o £9,536,255 yn 2007/08 i £9,603,013 eleni. Cynnyddodd y gwariant heb fod yn staff £45,730 (2%) i £2,327,035. Lleihaodd y costau staffio heb gynnwys costau ailstrwythuro eithriadol o £6,614,488 yn 2007/08 i £6,444,537 eleni, lleihad o £169,951 (2.6%) ac mae'n adlewyrchu canlyniad ariannol y broses ailstrwythuro.

Mae'r llog o £58,000 (dim yn 2007/08) yn berthnasol i'r gwahaniaeth rhwng adenillion disgwylidig net asedau pensiwn y cynllun Llywodraeth Leol a'r llog taladwy ar rwymedigaethau'r cynllun.



AROLWG GWEITHREDOL A CHYLLIDOL (parhâd)

Gwariant Cyfalaf

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd y coleg i fuddsoddi yn sylweddol yn yr ystâd, offer ac asedau eraill sy'n cynnal y ddarpariaeth addysgu. Roedd gwariant cyfalaf 2008/09 yn £753,786, ac o hyn gwariwyd £381,603 ar brosiectau penodol i wella mynediad i'r anabl ac ar brosiectau amrywiol i wella'r safle i gyd. Gwariwyd £191,685 ar barhau i ddatblygu systemau gwybodaeth y Coleg a defnyddiwyd £74,454 ar gyfer uwchraddio offer, dodrefn a cherbydau y Coleg.

Hefyd yn y flwyddyn talwyd £106,044 mewn ffioedd proffesiynol ar gyfer cynllunio datblygiad pentref addysg Glynllifon (PA@G). Mae'r cynllun, y sicrhawyd grant Cynulliad o £9.93 miliwn ar ei gyfer, yn cynnwys ail-wneud adeilad presennol Glanrafon, gan greu llety preswyl modern ar gyfer 70 o fyfyrwyr, a datblygu canolfan addysgu a hyfforddi newydd a fydd yn darparu adnoddau llawer gwell ar gyfer y gweithgareddau addysgol cyfredol ac arfaethedig ar y safle.

Cronfeydd & Arian Parod

Cyfanswm yr arian parod yn y banc ac mewn llaw ar 31 Gorffennaf 2009 oedd £2,322,290, lleihad o £151,649 ar 31 Gorffennaf 2008. Mae'r lleihad yn adlewyrchu effaith y diffyg gweithredol yn y flwyddyn, a chyllido prosiectau cyfalaf.

Bu lleihad yn y Cronfeydd ar y Fantolen, yn cynnwys y rhwymedigaeth pensiwn o £5,709,653 yn 2007/08 i £4,089,356 eleni, lleihad o £1,620,297. Y rheswm pennaf am y lleihad yw effaith cynnydd o £1.197miliwn yn rhwymedigaethau disgwylidig y cynllun pensiwn Llywodraeth Leol, wedi ei seilio ar brisiad actiwari ar 31 Gorffennaf 2009.

Perfformiad Talu

Mae'r Ddeddf Taliadau Hwyr Dyledion Masnachol (Llog) 1998, a ddaeth i rym ar 1 Tachwedd 1998, yn ei gwneud yn angenrheidiol i Golegau, lle nad oes cytundeb i'r gwrthwyneb, dalu eu cyflenwyr o fewn 30 diwrnod o naill ai dderbyn y nwyddau neu'r gwasanaeth, neu o ddyddiad derbyn yr anfoneb. Y targed osodwyd gan y Trysorlys i dalu cyflenwyr o fewn 30 diwrnod yw 95%. Yn ystod y cyfnod 1 Awst 2008 i 31 Gorffennaf 2009, talodd y Coleg 83% o'i anfonebau o fewn 30 diwrnod. Ni chodwyd unrhyw log ar y Coleg am daliadau hwyr yn ystod y cyfnod hwn.

Strategaeth Stadau a Rhaglen Cynnal-a-Chadw Gynlluniedig

Mabwysiadodd y Coleg ei Strategaeth Stadau a Chynllun Datblygu cyfredol yng Ngorffennaf 2005, a dyma sydd wedi gyrru'r datblygiadau dros y bedair blynedd diwethaf. Yng Nghorffennaf 2009, cadarnhaodd Llywodraeth Cynulliad Cymru eu cymeradwyaeth o £9.93 miliwn o arian cyfalaf i ddatblygu'r prosiect pentref addysgu (PA@G) yn Glynllifon fel y cyfeirir ato uchod.

Cyfeirir hefyd o fewn rhan amcanion strategol yr adolygiad at y ffaith bod y Gorfforaeth wedi cychwyn ar gyfnod cynllunio uno gyda Choleg Llandrillo Cymru. Llywir buddsoddiad yn yr ystâd gan yr adolygiad arfaethedig i'r strategaeth stadau a rhaglen cynnal a chadw sydd i gymryd lle yn dilyn cyflawniad yr uno.

Prif Risgiau ac Ansicrwydd

Mae'r Coleg wedi gwneud rhagor o waith yn ystod y flwyddyn i ddatblygu a gosod y system o reolaeth fewnol yn cynnwys rheolaeth ariannol, gweithredol a risg, sydd wedi ei gynllunio i warchod asedau ac enw da'r Coleg.

Yn seiliedig ar y cynllun strategol, mae Tim Strategol y Coleg yn gwneud adolygiad cynhwysfawr o'r risgiau mae'r Coleg yn eu hwynebu. Maent yn adnabod systemau a threfniannau, yn cynnwys gweithredoedd ddylai liniaru unrhyw effaith posibl ar y Coleg.



AROLWG GWEITHREDOL A CHYLLIDOL (parhâd)

Mae'r rheolaeth fewnol wedyn yn cael ei weithredu a bydd adolygiad y flwyddyn ddilynol yn adolygu'r effeithiolrwydd yn erbyn gweithredoedd lliniaru risg. Yn ychwanegol i'r adolygiad blynyddol, bydd Tim Strategol y Coleg yn ystyried unrhyw risg all godi o ganlyniad i faes newydd o waith gan y Coleg.

Mae cofrestr risg yn cael ei chadw ar lefel Golegol, sy'n cael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn gan y Pwyllgor Archwilio ac yn amlach os oes angen. Mae'r gofrestr risg yn adnabod y risgiau pwysicaf, tebygolrwydd i'r rheiny ddigwydd, effaith posib hynny ar y Coleg a'r hyn sy'n cael ei wneud i leihau a lliniaru'r risgiau. Mae risgiau yn cael eu blaenoriaethu gan defnyddio system sgorio gyson.

Datganiad Anabledd

Mae'r coleg yn ceisio cyrraedd y nod a osodir yn y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 a 2005.

Mae'r datganiad anabledd cyffredinol sy'n dilyn yn ddarn o ddogfen Datganiad Anabledd llawn y Coleg.

"Mae'r Coleg yn croesawu myfyrwyr sydd ag anghenion arbennig, boed yn anghenion corfforol neu'n anghenion addysgol. Mae cyrsiau penodol ar gael i fyfyrwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig, ac mae'r Coleg hefyd yn ceisio integreiddio myfyrwyr o'r fath i gyrsiau prif ffrwd, pan fo'n bosibl. Ceir manylion pellach yn y polisi dysgu cynhwysol. Gwnaed, ac fe wneir, pob ymdrech i wneud mynediad i holl adeiladau'r Coleg yn bosibl i'r anabl. Mae hyn yn cynnwys addasu adeiladau presennol a chynllunio gofalus o adeiladau newydd fel bod mynediad i'r anabl yn cael ei sicrhau cyn gymaint â phosibl.

Mae staff ar gael er mwyn rhoi cefnogaeth ychwanegol i fyfyrwyr gydag anghenion arbennig ac mae staff arbennigol ar gael i roi cymorth penodol e.e. gyda llythrennedd neu rifedd. Gall fod offer arbennigol ar gael mewn rhai canolfannau."

Mabwysiadodd y Coleg ei Gynllun Cyfartaledd Anabledd cyntaf ym Mai 2007.

Datgelu Gwybodaeth i Archwilwyr

Mae'r aelodau oedd yn eu lle ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn yn cadarnhau, cyn belled a'u bod yn ymwybodol, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio perthnasol nad ydy archwilwyr y Coleg yn ymwybodol ohono a bod pob aelod wedi cymryd pob cam y dylai fod wedi ei gymryd i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio perthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr y Coleg yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Ymgynghorwyr Proffesiynol

Ymgynghorwyr y Coleg ar ddyddiad y Fantolen oedd:

Archwilwyr Allanol:	McLintocks	2, Hilliards Court, Parc Busnes Caer, Caer
Archwilwyr Mewnol:	Bentley Jennison	5 Ridge House, Festival Park, Stoke-on-Trent
Bancwyr:	Barclays	Cwrt Raymond, Rhodfa'r Tywysog, Bae Colwyn
Cyfreithwyr:	Eversheds	1, Sgwâr Callaghan, Caerdydd
	Parry Davies Clwyd-Jones	22 Stryd Penlan, Pwllheli, Gwynedd

Cymeradwywyd ar ran aelodau'r Gorfforaeth ar 10fed Ragfyr 2009 ac arwyddwyd ar ei ran gan:

**Hedd Pugh, Cadeirydd
10fed Rhagfyr 2009**



DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AELODAU'R GORFFORAETH

Mae'n ofynnol bod aelodau'r Gorfforaeth yn cyflwyno datganiadau cyllidol wedi eu harchwilio am bob blwyddyn ariannol.

Yn unol â thelerau ac amodau'r Memorandwm Cyllidol y cytunodd Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chorfforaeth y Coleg arno, mae'n ofynnol i'r Gorfforaeth, drwy'r Pennaeth, baratoi datganiadau cyllidol ar gyfer pob blwyddyn, yn unol â'r "Statement of Recommended Practice - Accounting for Further and Higher Education" 2007, a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon gyhoeddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n rhoi darlun gwir a theg o gyflwr busnes y coleg a chanlyniadau'r flwyddyn.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Gorfforaeth wedi sicrhau bod:

- ♦ polisiau cyfrifeg addas wedi'u dethol a'u defnyddio mewn dull cyson;
- ♦ y penderfyniadau a'r amcangyfrifon a wnaed yn rhesymol a doeth;
- ♦ safonau cyfrifeg perthnasol wedi'u dilyn, a bod unrhyw wriad sylweddol wedi'i ddangos a'i egluro yn y datganiadau ariannol;
- ♦ y datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail busnes gweithredol oni fydd yn amhriodol tybio y bydd y Coleg yn dal i fod mewn bodolaeth.

Mae'n ofynnol i'r Gorfforaeth hefyd baratoi Adroddiad Aelodau sy'n amlinellu beth mae'n geisio ei wneud, a sut mae'n mynd ati, yn cynnwys statws cyfreithiol a gweinyddol y Coleg.

Mae'r Gorfforaeth yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifeg priodol sy'n dangos, ar unrhyw adeg a chyda chywirdeb rhesymol, beth yw sefyllfa ariannol y Coleg, ac mae'n gyfrifol hefyd am sicrhau bod datganiadau cyllidol yn cael eu paratoi yn unol â deddfwriaeth berthnasol a safonau cyfrifeg perthnasol eraill. Mae'n gyfrifol am gymryd camau rhesymol i warchod asedau'r Coleg ac i rwystro a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Cyfrifoldeb Corfforaeth y Coleg yw cynnal safle we y Coleg, a'i chywirdeb ac nid yw gwaith yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn, ac felly nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am newidiadau all fod wedi eu gwneud i'r Datganiadau Cyllidol ers iddynt gael eu rhoi ar y safle we yn wreiddiol. Gall deddfwriaeth y Deyrnas Unedig mewn perthynas â pharatoi a dosbarthu datganiadau cyllidol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Mae aelodau'r gorfforaeth yn gyfrifol am sicrhau bod cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cael ei ddefnyddio yn unol â'r Memorandwm Cyllidol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ac unrhyw amodau eraill y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru o dro i dro eu pennu. Mae'n ofynnol i aelodau'r Gorfforaeth sicrhau bod rheolaeth ariannol a rheolaethol mewn lle i warchod cyllid cyhoeddus ac arall ac i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio yn iawn. Yn ogystal â hyn, mae aelodau'r Gorfforaeth yn gyfrifol am sicrhau rheolaeth darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a gwariant y Coleg, fel bod dim risg i'r budd a ddylai ddilyn y defnydd o gyllid cyhoeddus.

Cymeradwywyd ar ran aelodau'r Gorfforaeth ar 10fed Ragfyr 2009 ac arwyddwyd ar ei ran gan:

**Hedd Pugh, Cadeirydd
10fed Rhagfyr 2009**



DATGANIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL A RHEOLAETH FEWNOL

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i ddilyn yr arferion gorau ym mhob agwedd ar lywodraethu corfforaethol. Mae'r crynodeb hwn yn disgrifio sut yr aeth y Coleg ati i weithredu'r egwyddorion a nodir yn Adran 1 y Côd Cyfun ar Lywodraethu Corfforaethol a gyhoeddwyd gan Gyfnewidfa Stoc Llundain yng Ngorffennaf 2006. Y diben yw cynorthwyo'r sawl fydd yn darllen y datganiadau ariannol i ddeall sut y rhoddwyd yr egwyddorion ar waith.

Ym marn y llywodraethwyr, mae'r Coleg yn cydymffurfio â holl ddarpariaethau'r Côd Cyfunedig sy'n berthnasol i'r Sector Addysg Bellach ac mae wedi cydymffurfio trwy gydol y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2009.

Y Gorfforaeth

Cyfrifoldeb y Gorfforaeth yw beiriniadu'r materion sy'n ymwneud â strategaeth, perfformiad, adnoddau a safonau ymddygiad yn annibynnol.

Aelodau'r Bwrdd

Yn ystod y flwyddyn, roedd yr aelodau fel a ganlyn:

Enw		Pwyllgorau Wasanaethir	Statws yr Apwyntiad
Y diweddar Mr John Tudor - Cadeirydd	Hyd at Ebrill '09	C, E, S, Ch	Busnes
Mr Hedd Pugh - Cadeirydd	O Gorff. '09	A	Busnes
Mr John Griffiths - Is-Gadeirydd	Cadeirydd Dros Dro Ebrill - Gorff 09	A, Ch	Busnes
Mr E Marshall Davies		C, E, Ch	Busnes
Ms Edwina Winter		Ch, A	Busnes
Mr Geraint Hughes	o 19/03/09	C, S	Busnes
Ms Helen Halpin	o 13/05/09	A, E	Busnes
Mr Eifion Owen		C	Staff
Mr Clive Taylor		E	Staff
Dr Ian J Rees		C, E, Ch	Pennaeth
Mr John Cadwalader		E	Rhiant
Ms Minoo Rabbani	hyd at 16/12/08	C	Rhiant
Ms. Carol Dawson	o 12/12/08	A, E	Rhiant
Mr Iwan Trefor	o 23/10/08	Ch, S	Llywodraeth Leol
Mr John Wyn Griffith		C	Cymuned
Ms Lonna Bradley		E	Cymuned
Aelod o blith y Myfyrwyr		-	Myfyriwr
Ms Nansi Thirsk		C, S	Cyf-etholwyd
Mr John M Edwards	hyd at 18/10/08	A, S	Cyf-etholwyd
Mr David Hicken		A	Cyf-etholwyd

Mae'r llythrennau yn yr ail golofn yn dynodi aelodaeth pwyllgorau:

C – Cyllid a Dibenion Cyffredinol; A – Archwilio; E – Staffio, Cwricwlwm & Ansawdd
S - Cyflogaeth Staff Uwch; Ch - Chwilio

Clerc y Gorfforaeth : Ms Caroline Williams

Caiff y gorfforaeth wybodaeth yn gyson ac yn amserol ar berfformiad ariannol cyffredinol y Coleg, yn ogystal â gwybodaeth arall fel cymharu perfformiad â thargedau cyllido, gwariant cyfalaf arfaethedig, materion yn ymwneud ag ansawdd a materion personél perthnasol, fel iechyd a diogelwch a materion yn ymwneud â'r amgylchedd. Mae'r Gorfforaeth yn cyfarfod o leiaf unwaith y tymor.



DATGANIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL A RHEOLAETH FEWNOL

Mae'r Gorfforaeth yn gweithredu trwy nifer o bwyllgorau. Mae gan bob pwyllgor faes gorchwyl, sydd wedi ei gymeradwyo gan y Gorfforaeth. Y pwyllgorau yw, Cyllid a Dibenion Cyffredinol; Staffio, Cwricwlwm ac Ansawdd; Mae cofnodion llawn o bob cyfarfod, oni bai bod y Gorfforaeth yn eu hystyried yn gyfrinachol, ar gael gan y Clerc.

Mae Clerc y Gorfforaeth yn cadw cofrestr o ddiddordebau cyllidol a phersonol y llywodraethwyr.

Mae'n bosib i'r llywodraethwyr gael cyngor proffesiynol annibynnol ynglyn â'u dyletswyddau ar gost y Coleg ac mae modd iddynt gysylltu â Chlerc y Gorfforaeth, sy'n atebol i'r Bwrdd am ofalu y cydymffurfir â'r gweithdrefnau a'r rheoliadau i gyd. Mae penodi, gwerthuso a chael gwared â'r Clerc yn faterion i'r Gorfforaeth gyfan.

Paratoir agenda, dogfennau ac adroddiadau ffurfiol i'r llywodraethwyr mewn da bryd, cyn cyfarfodydd y Bwrdd. Darperir papurau paratoi achlysurol hefyd.

Mae gan y Gorfforaeth elfen an-weithredol gryf ac annibynnol ac nid oes un unigolyn na grwp yn geffyl blaen yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae'r Gorfforaeth yn ystyried ei aelodau an-weithredol i gyd yn annibynnol o unrhyw gyfrifoldebau rheoli ac yn rhydd o unrhyw fusnes neu berthynas arall, a allai amharu'n sylweddol ar eu barn annibynnol.

Mae rhaniad clir yn y cyfrifoldebau - mae swyddogaethau gwahanol gan y Cadeirydd a Phennaeth y Coleg.

Penodi i'r Gorfforaeth

Mae unrhyw benodiadau a wneir i'r Gorfforaeth yn fater i'r Gorfforaeth yn ei chyfanrwydd ei ystyried. Mae gan y Gorfforaeth bwyllgor Chwilio sy'n cynnwys 5 aelod sy'n gyfrifol am ddewis ac enwebu unrhyw aelod newydd a'i Gorfforaeth. Mae'r Gorfforaeth yn gyfrifol am ofalu bod hyfforddiant addas ar gael yn ôl y galw.

Penodir aelodau'r Gorfforaeth am gyfnod o ddim mwy na phedair blynedd.

Pwyllgor Cyflogaeth Staff Uwch

Mae Pwyllgor Cyflogaeth Staff Uwch y Gorfforaeth yn cynnwys 4 aelod. Cyfrifoldebau'r pwyllgor yw awgrymu argymhellion i'r Bwrdd ynglyn â thaliadau a budd-daliadau'r Pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth.

Rhoddir manylion taliadau hyd at 31 Gorffennaf 2009 yn nodyn 8 i'r Datganiadau Cyllidol.

Pwyllgor Archwilio


Mae'r pwyllgor archwilio yn cynnwys 5 aelod o'r Gorfforaeth (ac eithrio'r Pennaeth a'r Cadeirydd). Mae'r pwyllgor yn gweithredu yn unol â themau cyfeirio ysgrifenedig sy'n cael eu cymeradwyo gan y Gorfforaeth.

Mae'r pwyllgor archwilio'n cyfarfod pob tymor ac mae'n gweithredu fel fforwm fel bod archwilwyr datganiadau mewnol ac ariannol y Coleg yn gallu trafod materion gyda'r pwyllgor yn annibynnol, heb fod rheolwyr y Gorfforaeth yn bresennol. Mae'r pwyllgor hefyd yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a allai effeithio ar fusnes y Coleg.

Mae archwilwyr mewnol y Coleg yn cadw llygad ar y systemau rheoli mewnol, rheoli risg a phrosesau llywodraethu yn unol â'r cynllun y cytunwyd arno ac yn adrodd yn ôl i'r rheolwyr a'r pwyllgor archwilio.

Mae'r rheolwyr yn gyfrifol am weithredu argymhellion yr archwilwyr y cytunwyd arnynt ac mae'r archwilwyr mewnol yn gwneud adolygiadau achlysurol i sicrhau bod yr argymhellion wedi eu gweithredu arnynt.

Yn ogystal, mae'r pwyllgor archwilio yn cynghori'r Gorfforaeth ar benodi archwilwyr mewnol a datganiadau ariannol a'u talu am waith archwilio neu waith fel arall.



DATGANIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL A RHEOLAETH FEWNOL

Rheoli Mewnol

Amrediad cyfrifoldeb

Y Gorfforaeth sy'n bennaf gyfrifol am system rheoli mewnol y Coleg ac adolygu ei effeithiolrwydd. Fodd bynnag mae system o'r fath wedi'i chynllunio ar gyfer rheoli yn hytrach na dileu y risg o fethu cyflawni amcanion busnes a dim ond sicrwydd rhesymol, yn hytrach na sicrwydd llawn y gall ei gynnig yn erbyn camddatgan neu golled sylweddol.

Mae'r Gorfforaeth wedi rhoi cyfrifoldeb o ddydd i ddydd i'r Pennaeth, gan mai ef yw'r Swyddog Cyfrifon, i gynnal system rheoli mewnol gadarn sy'n cynorthwyo'r Coleg i fynd ati i gyflawni ei bolisiau, ei nodau a'i amcanion, tra'n diogelu cyllid ac asedion cyhoeddus y mae ef yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddir iddo ef yn y Memorandwm Ariannol rhwng Coleg Meirion-Dwyfor a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae ef yn gyfrifol am hysbysu'r Gorfforaeth am unrhyw wendidau neu ddiffygion yn y rheoli mewnol.

Diben System Rheoli Mewnol

Mae'r system rheoli mewnol wedi'i chynllunio i reoli risg i raddau rhesymol, yn hytrach na dileu yr holl risg o fethu cyflawni polisiau, nodau ac amcanion; felly, dim ond sicrwydd effeithiolrwydd rhesymol yn hytrach na sicrwydd pendant y gellir ei gynnig. Mae'r system rheoli mewnol wedi'i selio ar broses barhaol sydd wedi ei chynllunio i adnabod a blaenoriaethu'r risgau i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion y Coleg, i werthuso tebygolrwydd y risg yn cael ei wireddu a'r effaith y gall hynny ei gael, a'u rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac yn economaidd. Mae Coleg Meirion-Dwyfor wedi bod yn defnyddio'r system rheoli mewnol yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2009 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.


Y gallu i ymdrin â risg

Mae'r Gorfforaeth wedi adolygu'r prif risgiau sy'n achosi pryder i'r Coleg yn ogystal â'r rheolau gweithredu, ariannol a chydymffurfedd sydd mewn lle i leihau'r risgiau hynny. Mae'r Gorfforaeth yn credu bod yna broses ffurfiol barhaol mewn lle i adnabod, gwerthuso a rheoli risgiau slyweddol y Coleg a'i bod mewn lle yn y cyfnod hyd at 31 Gorffennaf 2009 a hyd at y dyddiad y cymeradwywyd yr adroddiad a'r cyfrifon. Caiff y broses yma ei hadolygu'n rheolaidd gan y Gorfforaeth.

Fframwaith risg a rheoli

Mae'r system rheoli mewnol wedi'i seilio ar fframwaith o wybodaeth rheoli rheolaidd, gweithdrefnau gweinyddu yn cynnwys rhannu dyletswyddau a system rhannu a chyfrifoldeb. Yn benodol, mae'n cynnwys:

- * Systemau cyllido cynhwysfawr gyda chyllideb blynyddol, sy'n cael ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y corff llywodraethu
- * Adolygiadau rheolaidd gan y corff llywodraethu o adroddiadau ariannol cyfnodol a blynyddol, yn cymharu perfformiad ariannol yn erbyn rhagolygon
- * Pennu targedau i fesur perfformiad ariannol ac arall
- * Canllawiau rheoli buddsoddi cyfalaf sydd wedi'i diffinio'n glir
- * Mabwysiadu disgyblaethau rheoli prosiect ffurfiol, os yw'n berthnasol



DATGANIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL A RHEOLAETH FEWNOL

Mae gan Coleg Meirion-Dwyfor wasanaeth archwilio mewnol, sy'n gweithredu yn unol â gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Pennir gwaith y gwasanaeth archwilio mewnol trwy ddadansoddi'r risg sy'n debygol o effeithio ar y Coleg. Mae'r cynlluniau archwilio mewnol blynyddol wedi'u seilio ar y dadansoddiad yma. Mae'r dadansoddiad risg a'r cynlluniau archwilio mewnol yn cael eu cymeradwyo gan y Gorfforaeth yn dilyn argymhellion y pwyllgor archwilio. Yn flynyddol, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn paratoi adroddiad ar weithgaredd archwilio mewnol y Coleg. Mae'r adroddiad yn cynnwys barn annibynnol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y system rheoli risg, prosesau rheoli a llywodraethu.

Adolygu Effeithiolrwydd

Fel y Swyddog Cyfrifon, mae'r Pennaeth yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheoli mewnol. Mae yn adolygu effeithiolrwydd y system rheoli mewnol trwy ystyried y canlynol:

- * gwaith yr archwilwyr mewnol
- * gwaith y rheolwyr gweithredol o fewn y Coleg sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol
- * sylwadau a wneir gan archwilwyr datganiadau cyllidol y Coleg ac archwilwyr y Cyngor yn eu llythyrau rheoli ac adroddiadau eraill

Mae'r Pennaeth wedi derbyn cyngor ynglyn â goblygiadau canlyniadau ei adolygiad o effeithiolrwydd y system rheoli mewnol gan y pwyllgor archwilio, sy'n goruchwyllo gwaith yr archwiliwr mewnol a chynllun i fynd i'r afael â'r gwendidau a gofalu bod y system sydd mewn lle yn cael ei gwella'n barhaol.

Mae'r Tîm Strategol yn derbyn adroddiadau sy'n pennu dangosyddion perfformiad a risg allweddol ac yn ystyried materion rheoli posibl a ddaw i'w sylw gan fecanweithiau rhybudd cynnar, sydd wedi'u hymgorffori yn yr adrannau ac a atgyfnerthir trwy hyfforddiant ymwybyddiaeth o risg. Mae'r tîm strategol a'r pwyllgor archwilio hefyd yn derbyn adroddiadau rheoli gan yr archwilwyr mewnol yn rheolaidd, sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer gwella. Mae rhan y pwyllgor archwilio yn y maes yma wedi'i gyfyngu i adolygiad trylwyr o'r trefniadau ar gyfer rheoli mewnol. Mae agenda'r Gorfforaeth yn cynnwys eitem rheolaidd sy'n ystyried risg a rheoli ac mae'n derbyn adroddiadau arnynt gan y Tîm Strategol a'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r pwyslais ar dderbyn lefel gymharol o sicrwydd yn hytrach nag adrodd yn ôl yn unig. Yn nghyfarfod y Gorfforaeth ym mis Rhagfyr 2009, cyflawnodd y Gorfforaeth yr asesiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2009 trwy ystyried dogfennau gan yr uwch dim rheoli a'r archwiliwyr mewnol, ac ystyried digwyddiadau ers 31 Gorffennaf 2009.

Busnes gweithredol

Yn dilyn ymholiadau addas, mae'r Gorfforaeth yn ystyried bod gan y Coleg adnoddau digonol i barhau i weithredu yn y dyfodol agos. Am y rheswm yma, maent yn parhau i fabwysiadu y sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau.

Cymeradwywyd ar ran aelodau'r Gorfforaeth ar 10fed Rhagfyr 2009 ac arwyddwyd ar ei ran gan:

Hedd Pugh
Cadeirydd
10fed Rhagfyr 2009

I J Rees
Pennaeth a Phrif Weithredwr
10fed Rhagfyr 2009

CYFRIF INCWM A GWARIANT

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2009



	Nodyn	2009 £	2008 £
Incwm			
Incwm Llywodraeth Cynulliad Cymru	2	7,166,574	7,186,432
Ffioedd dysgu a chontractau addysgol	3	653,053	638,218
Grantiau a chontractau eraill	4	199,381	323,293
Incwm arall	5	1,158,209	1,167,576
Incwm buddsoddiadau	6	76,044	184,360
Cyfanswm Incwm		9,253,261	9,499,879
Gwariant			
Costau staffio	7	6,444,537	6,614,488
Costau Ailstrwythuro Eithriadol	7	18,545	239,058
Gwariant gweithredol arall	9	2,327,035	2,281,305
Llog taladwy	11	58,000	0
Dibrisiant	12	773,441	640,462
Cyfanswm Gwariant		9,621,558	9,775,313
Diffyg am y flwyddyn wedi ei gadw yn y cronfeydd cyffredinol		(368,297)	(275,434)

**DATGANIAD GWARGEDAU A DIFFYGION COST HANESYDDOL
A DATGANIAD ENILLION A CHOLLEDION CYDNABYDDEDIG
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2009**



DATGANIAD GWARGEDAU A DIFFYGION COST HANESYDDOL

	2009	2008
	£	£
Diffyg ar weithrediadau parhaus ar ôl dibrisiant asedau yn ôl prisiant	(368,297)	(275,434)
Gwahaniaeth rhwng dibrisiant cost hanesyddol a'r gwir godiant am y cyfnod ar y swm wedi ei adbriso	88,623	88,623
Diffyg cost hanesyddol am y flwyddyn	<u>(279,674)</u>	<u>(186,811)</u>

DATGANIAD ENILLION A CHOLLEDION CYDNABYDDEDIG

	2009	2008
	£	£
Diffyg ar weithrediadau parhaus ar ôl dibrisiant asedau yn ôl prisiant	(368,297)	(275,434)
Colled actiwarial mewn perthynas â'r cynllun pensiwn	<u>(1,252,000)</u>	<u>(348,000)</u>
Cyfanswm Colledion cydnabyddedig y flwyddyn	(1,620,297)	(623,434)
Cysoniad		
Cronfeydd agoriadol	5,709,653	6,333,087
Cyfanswm colledion cydnabyddedig	<u>(1,620,297)</u>	<u>(623,434)</u>
Cronfeydd Terfynol	<u>4,089,356</u>	<u>5,709,653</u>

MANTOLEN AR 31 GORFFENNAF



	Nodyn	2009 £	2008 £
Asedau sefydlog			
Asedau cyffwrddadwy	12	12,620,014	12,639,668
Asedau Cyfredol			
Stoc	13	380,418	382,092
Dyledwyr	14	710,447	634,402
Buddsoddiadau		74,064	79,561
Arian yn y banc ac mewn llaw		2,322,290	2,473,939
Cyfanswm Asedau Cyfredol		3,487,219	3,569,994
Llai: Credydwyr:symiau'n daladwy o fewn blwyddyn	15	(1,235,186)	(1,092,846)
Asedau cyfredol net		2,252,033	2,477,148
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol		14,872,047	15,116,816
Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a chodiannau	16	(295,148)	(332,598)
Asedau net heb gynnwys rhwymedigaeth pensiwn		14,576,899	14,784,218
Rhwymedigaeth pensiwn net	19	(2,400,000)	(1,203,000)
ASEDAU NET YN CYNNWYS RHWYMEDIGAETH PENSIWN		12,176,899	13,581,218
Grantiau cyfalaf gohiriedig	17	8,087,543	7,871,565
Cronfeydd Wrth Gefn			
Cyfrif incwm a gwariant heb y gronfa bensiwn		2,783,757	3,118,431
Cronfa Bensiwn	19	(2,400,000)	(1,203,000)
Cyfrif incwm a gwariant yn cynnwys y gronfa bensiwn		383,757	1,915,431
Cronfa adbriso	18	3,705,599	3,794,222
Cyfanswm cronfeydd wrth gefn		4,089,356	5,709,653
CYFANSWM		12,176,899	13,581,218

Cymeradwywyd y datganiadau cyllidol ar dudalennau 10 i 29 gan y Gorfforaeth ar 10fed Rhagfyr 2009 ac arwyddwyd ar ei rhan gan:

Hedd Pugh
Cadeirydd

I J Rees
Pennaeth a Phrif Weithredwr

R A Hughes
Cyfarwyddwr Cyllid

DATGANIAD LLIF ARIAN

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2009



	Nodyn	2009 £	2008 £
All-lif arian o weithgareddau gweithredol	20	(260,207)	(552,343)
Adenillion ar fuddsoddiadau a thrin cyllid	21	76,044	172,360
Gwariant Cyfalaf a buddsoddiad ariannol	22	27,017	(257,909)
Gostyngiad mewn arian yn y cyfnod		(157,146)	(637,892)
 Cysoni llif arian net i'r newid mewn cyllid net			
		2009 £	2008 £
Gostyngiad mewn arian yn y flwyddyn		(157,146)	(637,892)
Newid mewn cyllid net yn y flwyddyn		(157,146)	(637,892)
Cyllid net ar 1 Awst		2,553,500	3,191,392
Cyllid net ar 31 Gorffennaf		2,396,354	2,553,500



1 Polisiau Cyfrifydda

Mae'r polisiau cyfrifydda canlynol wedi eu defnyddio'n gyson wrth ddelio ag eitemau sy'n cael eu cyfrif yn sylweddol mewn perthynas â'r datganiadau cyllidol.

Sail Paratoi

Mae'r datganiadau cyllidol hyn wedi eu paratoi yn unol â datganiad o ymarfer gorau (SORP) "Accounting for Further and Higher Education Colleges 2007" ac yn unol â Safonau Cyfrifydda perthnasol. Maent yn cydymffurfio â'r arweiniad gyhoeddwyd gan yr Adran Addysg, Plant, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS).

Sail Cyfrifydda

Mae'r datganiadau cyllidol wedi eu paratoi yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol a addaswyd yn sgil adbriso rhai asedau sefydlog.

Cydnabod Incwm

Mae incwm grantiau ymchwil, contractau a gwasanaethau eraill wedi ei gynnwys i'r graddau bod y contractau neu'r gwasanaethau wedi eu cwblhau. Mae holl incwm buddsoddiadau tymor byr wedi ei gynnwys yn y cyfnod pan y'i henillwyd.

Buddion ar ôl Ymddeol

Darperir buddion pensiwn i staff y coleg gan y Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS) a Chynllun Blwydd-dal Llywodraeth Leol (LGPS). Mae'r rhain yn gynlluniau buddion diffiniedig ac yn cael eu contractio allan o'r cynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar Sail Enillion (SERPS).

Mae cyfraniadau'r Cynllun Athrawon wedi eu cynnwys yn y cyfrif incwm a gwariant er mwyn taenu cost pensiwn dros oes waith y gweithwyr yn y Coleg, mewn modd fel bod costau pensiwn yn ganran lefel o gostau pensiynol cyflogau cyfredol ac i'r dyfodol. Mae'r cyfraniadau'n cael eu penderfynu gan actiwariaid ar sail prisiant bob pum mlynedd gan ddefnyddio'r dull buddion dichonol. Mae'r TPS yn gynllun sawl cyflogwr ac ni all y Coleg adnabod ei siar o'r asedau a'r rhwymedigaethau gyda chysondeb. Mae'r TPS felly yn cael ei drin fel cynllun cyfraniadau wedi eu diffinio a'r cyfraniadau yn cael eu cydnabod fel y'u telir.

